

## **Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 26 Ebrill 2021 am 10.00am.

### **Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn RhCT.

Angela Pring - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)

Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)

David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

### **Swyddogion yn bresennol:-**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion

Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys

Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau

### **Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

#### **93 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **94 COFNODION CYFARFOD BWRDD PENSIWN RHCT A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 20 Ionawr 2021 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

#### **95 MATERION SY'N CODI**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion

y diweddariadau canlynol i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ar 20 Ionawr 2021:

- Tudalen 4; Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod y gwaith prisio GAD wedi'i gwblhau a bod yr ymateb yn gadarnhaol;
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod trafodaethau mewn perthynas â chynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth yn parhau;
- Tudalen 5; Cadarnhawyd y byddai diwrnod ymgysylltu â chadeiryddion Bwrdd Pensiwn Cymru yn cael ei gynnal ddydd lau nesaf;
- Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys y bydd adroddiad cydbwyllgor Partneriaeth Pensiynau Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mehefin;
- Tudalen 7; Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys nad oes angen ailgyflwyno prospectws Partneriaeth Pensiynau Cymru;

- Tudalen 9; Cyfeiriwyd at arolwg Aon IT a chadarnhawyd y byddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yn ceisio diweddariad ar hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

### **Camau gweithredu o'r cyfarfod ar 20 Ionawr 2021:**

**Cofnod 84;** Cadarnhawyd mai'r Cyllid ar 31 Mawrth 2019 oedd **98%**; y Cyllid ar 30 Mehefin 2020 oedd **106%**; y Cyllid ar 30 Medi oedd **105%**; y Cyllid ar 31 Rhagfyr oedd **111%**; y Cyllid ar 31 Mawrth 2020 oedd **88%**.

**Cofnod 92:** Ni dderbyniwyd dim. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yn trafod hyn gyda'r Actiwari yn y cyfarfod diweddar nesaf. Cadarnhawyd hefyd bod y gwaith ar galendr drafft o ddyddiadau cyfarfodydd i'w cyflwyno i'r Aelodau yn parhau.

### **96 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 1 Mawrth 2021.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi cynyddu o £4,040 miliwn (30 Medi 2020) i £4,417 miliwn (31 Rhagfyr 2020). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2020 oedd 3.0%, gan ragori ar feincnod penodol y cynllun, sef 6.5%.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at ffigurau cyflawniad tair blynedd y rheolwyr gweithredol. Nododd y Bwrdd gyflawniad rhagorol Baillie Gifford. Mae cyflawniad tymor canolig y Gronfa wedi bod o fudd ariannol i gyflogwyr. Cyfeiriodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys hefyd at gyflwyniad Baillie Gifford a CBRE.

Nodwyd bod mwy na 65% o asedau'r Gronfa bellach yn cael eu buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiynau Cymru

O ran sgiliau a gwybodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Caffael a Thrafodion y bu llawer o hyfforddiant ar-lein yn ystod y chwarter diwethaf. Dosbarthwyd e-bost i'r Panel gyda gwybodaeth am hyfforddiant a gweithdai ar gael trwy'r PLSA.

Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw beryglon i'w hadrodd i'r Rheoleiddwr Pensiynau yn ystod y cyfnod adrodd.

Cafwyd trafodaethau a rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd o ran trefniadau llywodraethu. Nodwyd bod Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn wedi cefnogi adolygiad cydymffurfiaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn 'Risgiau Llywodraethu a gweinyddu'r Rheoleiddwr mewn cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus: adroddiad ymgysylltu' ar ran y Bwrdd Pensiwn. Ehangwyd cwmpas y gwaith maes i roi sicrwydd ar brosesau allweddol yn ystod y cyfyngiadau symud. Cafodd yr adroddiad ei lunio ym mis Mawrth 2021.

Clywodd y Bwrdd fod y prosesau 'Diwedd Blwyddyn' wedi cychwyn, nodwyd bod Cylch Gorchwyl Cyfrifo Diwedd Blwyddyn 2021 wedi'i rannu â'r Cyflogwyr perthnasol.

O ran Cyfathrebu, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth y Bwrdd fod y fforwm Cyfathrebu Cyflogwyr wedi'i gynnal ar 22 Chwefror 2021.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd, er bod canllawiau wedi'u rhoi i Gyflogwyr yn flaenorol ynghylch ceisiadau Cap Ymadael, mae hi bellach yn ofynnol i'r Cyflogwyr perthnasol hynny ddechrau defnyddio'r templedi eto yn ogystal ag ailgyfrifo amcangyfrifon blaenorol yn ôl yr angen.

Aeth y Bwrdd hefyd ati i nodi a thrafod y cynnydd o ran gweithredu I-connect.

Yna cyfeiriwyd Aelodau o'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys y newyddion diweddaraf am adroddiad cynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru. Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod prospectws Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi'i ailgyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol er mwyn trafod buddsoddiad y marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg (cyfran 4), y Buddsoddiad Cyfrifol troshaeniad o'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang, ac is-gronfeydd Credyd y DU o ran ei aliniad i'w IMA. Y dyddiad trosglwyddo ar gyfer lansio cyfran y marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg fydd tua mis Medi 2021.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod y wybodaeth sydd wedi'i diweddarau.

97

## **MONITRO RISG**

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Hysbyswyd y Bwrdd fod y gofrestr risg wedi'i diwygio i adlewyrchu;

- Bydd y categori risg 'gweithredol' yn cael ei ehangu i adlewyrchu newidiadau / rheolaethau parhaus sydd ar waith o ran McCloud;
- Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cynnydd yr adolygiad prisio
- 'addasu yn ôl yr angen' wedi'i ychwanegu yn unol ag awgrym Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn
- Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu diwrnodau Ymgysylltu'r Bwrdd Pensiwn
- Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cymeradwyaeth polisi pleidleisio Partneriaeth Pensiynau Cymru yn JGC Rhagfyr 2020 ac effaith Brexit a hawliau pleidleisio.
- Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r buddsoddiad cynnyrch carbon isel ecwiti goddefol.
- Ychwanegwyd y geiriad 'a'i brofi' yn unol ag awgrym Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn
- Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu diddymiad y rheoliadau 'ymadael' yn

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn

RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

## 98 **CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiynau Cymru. Dilynwyd trafodaeth ynghylch diweddariad ar faterion sy'n weddill. Trafodwyd mater ynghylch alinio prospectws ac er bod y Bwrdd wedi cael sicrwydd ar sawl achlysur, roedd pryderon yn parhau ynghylch yr amser a gymerwyd i ddelio â'r mater.

Hysbyswyd aelodau'r bwrdd fod y prospectws a ailgyflwynwyd i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer y gyfran o'r farchnad sy'n dod i'r amlwg, troshaeniad buddsoddiad cyfrifol ac aliniad is-gronfa gredyd y DU wedi'i gymeradwyo ar 25 Mawrth

Mae Robecco, darparwr pleidleisio ac ymgysylltu Partneriaeth Pensiynau Cymru bellach yn mynd ati i bleidleisio cyfranddaliadau Partneriaeth Pensiynau Cymru gan ddefnyddio ei dempled pleidleisio safonol. Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wrthi'n datblygu ei pholisi pwrpasol ei hun. Cytunodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys i rannu'r polisi yma gydag aelodau'r Bwrdd maes o law. Cadarnhawyd hefyd y bydd trafodaethau pellach ynghylch y polisi yn digwydd ar ddiwrnodau ymgysylltu Partneriaeth Pensiynau Cymru

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiynau Cymru.

## 99 **FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r cynllun hyfforddi ar gyfer mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion i'w hychwanegu at y rhestr yn barhaus.

Cytunodd yr aelodau hefyd i nodi y byddai'r digwyddiad Cadeiryddion Blynyddol Cenedlaethol yn cael ei gynnal ar 21 Mehefin.

Cytunwyd y byddai rhestr o ddyddiadau yn y dyfodol yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unol â hynny.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

## 100 **LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID**

Rhoi sicrwydd ar lafar i'r Bwrdd ynghylch y trefniadau Llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i Covid.

Hysbyswyd aelodau'r bwrdd fod swyddogion yn dal i weithio o bell ac mai hwn yw'r cynllun tymor canolig o hyd. Sicrhawyd aelodau'r bwrdd fod hwn wedi bod

yn fodel effeithiol hyd yn hyn. Fodd bynnag, nodwyd bod swyddogion yn cael dod i mewn i'r swyddfa ar gyfer rhai gweithgareddau. Nodwyd hefyd bod rhai cyfyngiadau o ran hyfforddi staff newydd, fodd bynnag, roedd aelodau'r Bwrdd yn dawel eu meddwl bod mathau eraill o ymgysylltu wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r diweddariad.

#### **101 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

- *Rheoleiddiwr Pensiwn 'Cod Sengl'*  
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod yr adran ar hyn o bryd yn ystyried unrhyw oblygiadau'r 'cod sengl' newydd a bod digwyddiadau gyda chynrychiolydd y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi'u mynychu.
- *Arolwg Rheoleiddiwr Pensiwn (cylchredeg y cyflwyniad)*  
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth y Bwrdd fod yr arolwg wedi'i gwblhau ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd cyn i'r Gronfa gael ei chyflwyno.
- *'Llywodraethu Da' SAB*  
Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y wybodaeth ddiweddaraf a chytunwyd i rannu'r ddolen i Wefan Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy gydag aelodau'r Bwrdd.
- *Hyblygrwydd Cyflogwr ar 'Daliadau Ymadael'*  
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod hyn wedi'i drafod trwy gydol y cyfarfod.
- *Adroddiad Archwilio Mewnol*  
Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr aelodau fod adborth yr adolygiad yn gadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd priodol i'r Gronfa. Cafwyd mân argymhellion mewn perthynas â'r angen i geisio barn aelodau o'r gronfa am y gwasanaeth a dderbynnir ac y bydd hyn yn rhywbeth i'w ystyried yn ymarferol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad deddfwriaethol.

#### **102 PROSIECT ARIAN**

Derbyniodd aelodau'r bwrdd ddiweddariad ar adolygiad 'llyf arian' y Gronfa. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth aelodau'r Bwrdd, o ystyried aeddfedrwydd y Gronfa, y bydd yr adran yn monitro ac yn rheoli ei llyf arian dros y tymor canolig yn unol â'r rhagamcanion a ddarperir.

Cyfeiriwyd aelodau'r bwrdd at dudalen 77 yn yr adroddiad a chafwyd trafodaethau mewn perthynas â chynlluniau agored a chaeedig ac amcangyfrif o lif arian y gronfa yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r diweddariad.

#### **103 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A**

## **CORFFORAETHOL**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad llafar i aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â materion ESG.

Nodwyd y **byddai'r** ESG cael ei ystyried yn barhaus.

Mae'r Gronfa o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth barhaus i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a'u bod nhw'n rhan annatod o gyfrifoldebau'r Gronfa, ag yntau'n fuddsoddwr cynaliadwy tymor hir.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i bontio i economi carbon isel yn ogystal â lleihau unrhyw gysylltiad â thanwydd ffosil.

Sicrhawyd aelodau'r bwrdd fod ESG yn rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n barhaus ac yn croesawu'r ymgysylltiad rhagweithiol â 'Chyfeillion y Ddaear'.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad ar lywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

## **104 UNRHYW FATERION ERAILL**

Hysbyswyd aelodau'r bwrdd y bydd marcwyr dyddiadur yn cael eu hanfon allan yn nodi'r cyfarfodydd sydd o'u blaenau yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:50pm**

**MR H. COOMBS  
CADEIRYDD.**